## PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

## DYDD MAWRTH, 29 EBRILL 2025

**YN BRESENNOL:** Yr Athro Ian Roffe (Aelod Annibynnol) (Cadeirydd)

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:**
Cyng. K. Davies a Cyng. M. Thomas

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
Cyng. E. Evans a Cyng. K. Evans

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
Cyng. J. Grimes a Cyng. S. Wright

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
Cyng. W. Powell

**Aelod Annibynnol:**
Mrs H.M. Thomas

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:**
Mr D. Llywelyn – Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Mrs C. Morgans – Y Prif Weithredwr
Mrs N. Davies – Prif Swyddog Cyllid

**Hefyd yn bresennol:**
R. Edgecombe, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hall-Jones, Swyddog Cynorthwyol Gwasanaethau Democrataidd

**County Hall - Llandrindod Wells, Powys - Llandrindod Wells, Powys - 10.30 yb - 12.20 yp**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ken Howell (Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cynghorydd Wyn Thomas (Cyngor Sir Ceredigion), y Cynghorydd Les George (Cyngor Sir Powys), y Cynghorydd Liz Rijnenberg (Cyngor Sir Powys) a'r Cynghorydd Simon Hancock (Cyngor Sir Penfro).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

| Yr Aelod | Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd S. Wright | Yr holl eitemau | Mae aelod o'r teulu yn gweithio fel Swyddog Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r aelod hefyd |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | |
|---|---|---|
| | | yn swyddog heddlu wedi ymddeol ac yn aelod presennol o Gymdeithas Genedlaethol Swyddogion Heddlu wedi Ymddeol. |

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 CHWEFROR 2025**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2025 yn gofnod cywir.**

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)**

Nid oedd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod.

**5. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R CYHOEDD I'R COMISIYNYDD**

**5.1. CWESTIWN GAN CYNGHORYDD KAREN DAVIES**

5.1 Cwestiwn gan y Cynghorydd Karen Davies

Ar dudalen 9 o Gynllun yr Heddlu a Throseddu, o dan y pennawd ‘Cynaliadwyedd’ rydych chi'n nodi eich ymrwymiadau i –

- Lleihau ôl troed carbon
- Cefnogi gwytnwch ecolegol
- Cefnogi prosiectau datgarboneiddio ac
- Annog gweithio mewn partneriaeth i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Sut ydych chi'n bwriadu cyflawni'r ymrwymiadau hyn? A yw hyn yn cynnwys cael hyd i drydan a nwy y tu allan i'r fframwaith cenedlaethol? Beth fyddai ystyr 'llwyddiant' o ran yr ymrwymiadau hyn?

**Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

- Mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth, mae'r llu yn aelod o Bwyllgor Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Cymru Gyfan ac yn ddiweddar cynhaliodd Archwiliad Cynaliadwyedd - Asesiad Effaith Cyflawn.
- Fel corff heb ei ddatganoli, pan fydd mentrau yn cael eu lansio gan Lywodraeth Cymru, mae manteision y mentrau hynny yn aneglur ac yn gofyn i'r llu gyflwyno achos i gael ei ystyried yn rhan o'r gweithgareddau hynny.
- Mae'r llu yn gweithio gyda gwasanaethau brys eraill i fynd i'r afael â newid hinsawdd trwy Grŵp Cenedlaethol Ystadau’r Heddlu a'i Grŵp

Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd. Mae'r llu hefyd yn cyflogi Swyddog Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio pwrpasol ac yn rhyngweithio â Chynghorau Sir trwy'r gwahanol rwydweithiau o dan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Mae enghraifft ddiweddar o weithio ar atebion gyda'r gwasanaethau brys, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans a'r Gwasanaeth Tân, ac awdurdodau unedol, yn ymwneud â'r seilwaith gwefru cerbydau trydan sydd ei angen ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, y maent yn gweithio tuag ato. Nod gweithio mewn partneriaeth yw lleihau'r goblygiadau cost unigol.
- O ran manylion lleihau ôl troed carbon, mae wedi ymdrechu dros y blynyddoedd diwethaf i gael llinell sylfaen ar gyfer hynny ac wedi gweld newidiadau bach i arferion gwaith, megis gweithio o bell a gweithio gartref gan ddefnyddio technoleg ddigidol.
- Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi lleihau ei harwynebedd llawr ym Mhencadlys yr Heddlu yn sylweddol i leihau ei hôl troed a galluogi cynnydd yn ôl troed yr asiantaethau partner eraill. Mae Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru bellach yn gweithio ym Mhencadlys yr Heddlu ac yn defnyddio llawr cyfan mewn un adeilad yn y pencadlys, sydd wedi lleihau carbon oherwydd bod angen gyrru'n llai aml i'r gwaith ac i gyfarfodydd ac yn ôl.
- I weithio ar y llinell sylfaen, mae gwelliannau i effeithlonrwydd ynni adeiladau wedi'u cwblhau i leihau'r ôl troed carbon ledled adeiladau'r llu. Un enghraifft yw gosod paneli solar ar orsafoedd ac mae wedi gweld y buddsoddiadau dan sylw yng Ngorsaf Heddlu Aberteifi, er enghraifft, a cheisio mesur gwerth yr arbediad hwnnw o safbwynt osgoi costau yn fwy na lleihau costau oherwydd cynnydd mewn prisiau ynni dros y 5 i 10 mlynedd diwethaf.
- Bwriadu datblygu fferm solar ehangach ym Mhencadlys yr Heddlu. Mae goblygiadau cynllunio yn gysylltiedig â hyn a materion seilwaith yn ymwneud â chysylltu â'r Grid Cenedlaethol, y mae angen ystyried pob un ohonynt.
- Er nad oedd sicrwydd ynghylch y ffigur cyfredol penodol, nodwyd bod bil ynni Pencadlys yr Heddlu tua £500,000 bob blwyddyn. Mae'r gost hon yn gysylltiedig â natur 24 awr y gwasanaeth a ddarperir ym Mhencadlys yr Heddlu, ond hefyd yr ynni a ddefnyddir gan adnoddau, gan gynnwys Seilwaith TG, sef gweinyddion a'r system aerdymheru sy'n sicrhau bod gweinyddion yn cael eu cadw ar dymheredd penodol.
- O ran gwytnwch ecolegol, mae prosiectau wedi'u datblygu, fel Fferm Solar y Pencadlys, ond hefyd pan fydd prosiectau'n cael eu creu, bydd asesiad

ecoleg yn cael ei gynnal ar yr adeg honno. Mae blychau bywyd gwyllt wedi'u gosod mewn gwahanol leoliadau ar draws yr ystad hefyd.

- Yn ogystal â'r cerbydau trydan a phrosiectau datgarboneiddio Fferm Solar y Pencadlys, mae goleuadau LED wedi'u cyflwyno, sydd wedi cael effaith sylweddol ar leihau'r ôl troed carbon.
- O ran ystyr llwyddiant, yn y pen draw byddai'n golygu diogelu cymunedau a'r ymrwymiad i sero net i leihau'r ôl troed carbon a diogelu ecoleg hefyd. Er enghraifft, wrth adeiladu'r ddalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin yn Nafen, roedd angen sicrhau bod modd adleoli'r ecoleg yr amharodd yr adeilad newydd arni ar ran o'r safle.  Yn y pen draw, y nod yw bod popeth a wneir yn cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd.

## 5.2. CWESTIWN GAN CYNGHORYDD SIMON WRIGHT

<u>5.2 Cwestiwn gan y Cynghorydd Simon Wright</u>

Mae Blaenoriaeth 2 (Cefnogi Cymunedau Diogel trwy Atal Niwed) yn eich Cynllun Heddlu a Throseddu presennol yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod "Gwasanaethau plismona yn weladwy ac yn hygyrch, gan ddiwallu anghenion y cymunedau trefol a gwledig y maent yn eu gwasanaethu."

Er mwyn hwyluso hyn, a oes achos i'w wneud dros gynyddu'r pwerau sydd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Nyfed-Powys ar hyn o bryd i'r uchafswm a ganiateir o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, a thrwy hynny eu galluogi i ddarparu mwy o gefnogaeth i'r swyddogion â gwarant y maent yn gweithio ochr yn ochr â nhw ac sydd dan bwysau gormodol.

**<u>Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu</u>**

- Dyma gwestiwn sy'n cael ei ofyn yn aml i'r Prif Gwnstabl ynghylch a fyddai'r llu yn elwa ar ehangu pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu a ddylid lleihau niferoedd y swyddogion hyn a'u newid i bob pwrpas yn Gwnstabliaid â gwarant llawn.
- Mae'r ffordd y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu hariannu yng Nghymru yn gymhleth, gan fod y llu yn cael grant ychwanegol penodol gan Lywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn nodi unrhyw ofynion ar gyfer y rolau hynny, ond petai'n ceisio lleihau nifer y swyddogion hyn a chynyddu nifer y Cwnstabliaid, byddai, mewn gwirionedd, yn lleihau'r grant sydd ar gael i'r llu gan Lywodraeth Cymru.
- Mae gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu rôl benodol i'w chyflawni sy'n wahanol i swyddogion â gwarant, ac maent am sicrhau, fel y nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, ei bod yn cael ei chadw fel conglfaen ar gyfer plismona yn ardal Dyfed Powys drwy dimau Plismona ac Atal Bro cryf sydd â chymysgedd o Swyddogion Heddlu â gwarant, dan

arweiniad Rhingylliaid ac wedi'u cefnogi hefyd gan Gwnstabl ochr yn ochr â'r Tîm Plismona Bro a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae'r adnoddau hyn bellach ar waith ar draws y llu cyfan.

- Mae pethau wedi newid ychydig dros y misoedd diwethaf trwy'r Adduned Cymdogaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth bresennol y DU. Disgwylir y bydd ymateb Gwarant Plismona Bro y llu yn gweld Swyddogion Heddlu â gwarant/Cwnstabliaid ychwanegol yn dod yn ôl i'r ddwy rôl ymateb a'r Tîm Plismona Bro.
- Mewn nodyn a ddarparwyd gan yr Arweinydd Strategol ar gyfer Atal, disgwylir cynnydd sylweddol yn nifer y Swyddogion Heddlu â gwarant sy'n gweithio mewn Timau Plismona Bro yn ystod y 12 mis nesaf o ganlyniad i warant cyllid y Llywodraeth, sy'n golygu na fydd angen cynyddu pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.
- Byddai ehangu pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu ddefnyddio model tebyg i un lle maent yn gweithio mewn rôl ymchwilio, fel sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru, yn eu gwneud yn llai gweladwy yn gyhoeddus gan y byddent yn gweithio ar gyfleoedd ymchwilio mewn swyddfeydd.
- Mae buddsoddiadau sydd ar ddod gan y llu dros y deuddeg mis nesaf o ran cynyddu rolau staff yr Heddlu yn debygol o weld swyddogion yn cael eu symud i ffwrdd o 'swyddogaethau gweinyddol' fel disgrifiad i fynd yn ôl i'r ymateb rheng flaen amlwg a'r Timau Plismona ac Atal Bro.
- Byddai darparu pwerau ychwanegol i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn lleihau eu gallu i gyflawni'r rôl atal troseddau a phresenoldeb amlwg y mae angen iddynt ei chyflawni. Yn ôl yr adolygiad diweddar o'r Timau Plismona ac Atal Bro ar draws y llu, mae mwy o bwyslais bellach yn cael ei roi ar atal troseddau a cheisio gweithio mewn ffordd sy'n datrys problemau.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau dilynol gan y Panel yn ymwneud ag ymateb y Comisiynydd i eitem 5.2, ac ymatebodd y Comisiynydd iddynt yn unol â hynny.

## 6. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei hystyried a phleidleisiodd arni].

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 1 Chwefror a 31 Mawrth 2025.

Mae Adran 28(6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl benderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd yn cael eu hadolygu mewn aliniad â chyflawni ei swyddogaethau, a bod adroddiadau ac argymhellion yn ymwneud â'r penderfyniadau a'r camau gweithredu hynny yn cael eu llunio fel sy'n cael ei ystyried yn briodol gan y Panel i'r Comisiynydd.

Codwyd y cwestiynau neu bryderon canlynol gan y Panel:

- Cyfeiriwyd at y penderfyniad a wnaed ynglŷn â'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn ardal Dyfed. Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, dywedodd y Comisiynydd fod y cyllid ar gyfer Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed wedi cynyddu 15% gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth mwy rhagweithiol yn ogystal â galluogi cydweithio agosach â Thimau Plismona ac Atal Bro. Dywedwyd bod llwyddiant y gwasanaeth yn cael ei adrodd trwy Fyrddau Cynllunio Ardal a'i fesur ar sail llwyth achosion. Roedd rhai camau a gymerwyd gan y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus ac mae mesurau yn dangos hyn, gan gynnwys marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn ardal Dyfed Powys a oedd yn is nag mewn ardaloedd cymharol. Cynigiodd y Comisiynydd, nad oedd ganddo'r wybodaeth fanwl wrth law, ddosbarthu crynodeb o ddata perfformiad i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.
- Mewn perthynas â datganiad ynglŷn â 'Gwasanaethau Atal ac Ymgysylltu i Blant', cytunodd y Comisiynydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn y dyfodol a llwyddiant y cynlluniau peilot a gyflwynwyd ym mis Mai 2025 ar gyfer y gwasanaeth.
- Oherwydd nad oedd ganddo fynediad at y wybodaeth yn ystod y cyfarfod, dywedodd y Comisiynydd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei roi i'r Panel yn dilyn y cyfarfod ynglŷn â chwestiwn am y dyfarniad tendr sengl ar gyfer 'Storio ac Archifo Delweddau (Fforensig) - Canolfannau CSI a Phencadlys SSQ'.
- Mewn perthynas â sut mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd yn cael ei reoli, nododd y Comisiynydd fod Swyddog Monitro Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am reoli'r Fframwaith, sy'n ffurfio'r rheolau gweithredu rhwng y Comisiynydd, swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys a'i fod yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 7. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei hystyried a phleidleisiodd arni].

Bu'r Panel yn adolygu adroddiad perfformiad mewn perthynas â'r Gorchymyn Protocol Plismona ar gyfer Chwarter 4 blwyddyn ariannol 2024-25.

Dywedwyd bod perfformiad llawer o gamau gweithredu, gan gynnwys ariannu'r rhaglen gyfalaf, y cynllun ariannol tymor canolig a'r praesept heddlu, wedi symud o Oren i Wyrdd yn ystod y chwarter diwethaf.

Codwyd y cwestiynau neu'r pryderon canlynol:

- Gofynnwyd cwestiwn am fanylion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd. Dywedwyd y gellid darparu copi o'r cynllun i aelodau'r Panel, sy'n cael ei gefnogi gan gynllun gweithredu manwl sy'n ceisio sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau niferus y cynllun. Cyfeiriwyd yn benodol at ffocws y cynllun ar ymgorffori'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sengl yng ngweithgareddau a chyfrifoldebau'r holl unigolion sy'n gweithio ar y cynllun.
- Mewn ymateb i gwestiwn am ymholiadau gohebiaeth ynglŷn â fetio, tynnodd y Comisiynydd sylw at y ffaith bod prosesau fetio wedi dod yn fwy cymhleth oherwydd mwy o elfennau cyfryngau cymdeithasol ac ymweliadau cartref a bod angen fetio mwy o rolau drwy'r system DBS. Yn sgil derbyn sylwadau ynghylch anfodlonrwydd ar brydlondeb y system, sicrhaodd y Comisiynydd y Panel fod gweithgareddau gwella yn cael eu cynnal i helpu i wella'r broses.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. CYNLLUN BUSNES SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU - ADRODDIAD CYNNYDD

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei hystyried a phleidleisiodd arni].

Cafodd y Panel yr adroddiad cynnydd ar Gynllun Busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Chwarter 4 blwyddyn ariannol 2024-25. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni gofynion y cynllun busnes yn unol â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod y camau gweithredu yn amrywio o ran perfformiad, gan fod rhai wedi'u cwblhau ac eraill yn dal ar waith. Cyfeiriodd y Comisiynydd at y cam gweithredu 'Adolygiad Dynladdiad Domestig' nad oedd wedi cael ei gwblhau, gan nad oedd y llu bellach yn rhan o'r cynllun peilot.

Nodwyd bod sawl datblygiad wedi'i wneud yn ystod Chwarter 4 trwy newidiadau llywodraethu, gan gynnwys newidiadau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau comisiynu i adlewyrchu ymagwedd â mwy o ffocws at y Bwrdd Perfformiad Strategol.

Codwyd y cwestiynau neu bryderon canlynol gan y Panel:

- Gofynnwyd cwestiwn am yr hyn sy'n cael ei wneud i gefnogi manwerthwyr lleol ynglŷn â dwyn o siopau. Nododd y Comisiynydd eu bod wedi cwrdd â chonsortiwm manwerthu a'u gwahanol grwpiau ac wedi cysylltu â manwerthwyr yng nghanol trefi i ddeall eu pryderon. Cyfeiriwyd hefyd at y defnydd o ddull portffolio a seilwaith teledu cylch cyfyng yr heddlu o oddeutu 160 o gamerâu ar draws 26 o drefi i helpu i fonitro materion o'r fath.
- Dywedodd y Comisiynydd ei fod yn cytuno â phwynt a godwyd ynglŷn â rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth helpu i leihau troseddau yng nghanol trefi, gan fod yr Heddlu yn agored i'r mathau hyn o ddigwyddiadau er eu bod yn cyfrannu dim ond ychydig at gyfanswm nifer y troseddau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 9. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I GYNLLUN BUSNES OPCC

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei hystyried a phleidleisiodd arni].

Cafodd y Panel adroddiad manwl yn amlinellu newidiadau arfaethedig i Gynllun Busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i adlewyrchu Cynllun Heddlu a Throseddu newydd y Comisiynydd. Mae'r adroddiad yn egluro'r newidiadau penodol i'r Cynllun Busnes a sut y bydd y Swyddfa yn rhoi'r cynllun ar waith.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu y byddai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn symud tuag at gynllun tymor hwy yn unol â Chynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd. Dywedwyd y byddai cynllunio tymor hwy trwy ddull ffocws aml-flwyddyn yn helpu'r Comisiynydd i addasu pa mor ymatebol ydyw i ddyheadau presennol ac yn y dyfodol.

Gofynnwyd cwestiwn am y posibilrwydd o integreiddio dull cynllunio tymor hwy arfaethedig y cynllun i elfennau gweithredol yr Heddlu ac ynglŷn â throsiant uwch-swyddogion heddlu a rheolwyr canol. Nododd y Comisiynydd y bwriad i gynnwys eraill yn y cynllun a'r gwaith o'i gyflawni a chydnabu fod trosiant a hyd gwasanaeth swyddogion yn fater cyffredin o fewn y llu ac ym maes plismona yn gyffredinol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei hystyried a phleidleisiodd arni].

Ystyriodd y Panel Adroddiad Blynyddol 2024-2025 ar gyfer Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gyhoeddwyd yn unol ag amodau'r grant oedd yn berthnasol i'r cyllid a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae'r adroddiad yn amlinellu gweithgareddau'r Panel yn ystod 2024-2025 a'i flaenoriaethau ar gyfer 2025-2026.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Panel, i Mr Robert Edgecombe am baratoi'r adroddiad ac am ei gefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**